CYNGOR CYMUNED CWM CADNANT.

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd yn Neuadd y Plwyf, Llandegfan, Nos Fercher, 9fed HYDREF 2024.

COFNOD:

2722 **Yn bresennol roedd:**
Y Cynghorwyr Mr Tom Cooke (Cadeirydd), Mrs Nia Foulkes, Miss Sian Griffiths, Mr Eurfryn Davies, Mr John Griffiths, Mr William Roberts, Mr Michael Willis, Mr Alun Roberts & Mr J Alun Foulkes (Clerc).

HEFYD YN BRESENNOL: Cynghorydd Sir Mr Carwyn Jones.

2723 **Derbyn unrhyw ymddiheuriadau:**
Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cynghorwyr:
Mr John Wyn Griffith a Mr Gareth Griffiths.
Hefyd: Y Cynghorydd Sir Mr Gary Pritchard.

2724 **Croeso gan y Cadeirydd.**
Croesawyd yr holl Gynghorwyr oedd yn bresennol i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. Yna hysbyswyd sawl profedigaeth yn y pentref ers y cyfarfod diwethaf i'r trigolion hynny oedd wedi chwarae rhan weithredol yn y gymuned a chydymdeimlwyd hefyd â'r Cynghorydd Mr John Griffith yn dilyn marwolaeth ei frawd.

2725 **Datgan unrhyw Diddordeb Personol a/neu Rhagfarnol**
Ni ddatganwyd unrhyw diddordeb personol a/neu sy'n rhagfarnol cyn y cyfarfod.

2726 **Derbyn a Chymeradwyo Cofnodion Cyfarfodydd Blaenorol.**
Cyfarfod o'r Cyngor Llawn – 11.9.2024 **- cynigwyd (MW) ac eiliwyd (ED) i dderbyn, cymeradwyo a llofnodi bod cofnodion y cyfarfod yn gywir.**

2727 **Polisi Cyfryngau Cymdeithasol.**
Atgoffodd y Clerc y Cynghorwyr o Bolisi Cyfryngau Cymdeithasol y Cyngor Cymuned ac i fod yn ymwybodol o unrhyw bost y byddant yn cyhoeddi ar dudalennau Gweplyfr lleol a allai gael eu camddehongli ac sy'n agored i unrhyw gwynion a dderbynnir.

……..

2728 **Adroddiad Arolygu Man Chwarae a Thendr Torri Gwair.**
Trafodwyd a chytunwyd ar y materion canlynol:

2728.1 **Cwblhau Ymweliad Man Chwarae 2024 –** roedd copi o'r adroddiad wedi'i ddarparu i'r Cynghorwyr – cytunwyd i gael dyfynbris ar gyfer Offer Chwarae Amlddefnydd yn Llansadwrn sydd mewn cyflwr gwael ac i gynnwys y gwariant yn y praesept ar gyfer 2025/2026.

2728.2 Clerc i drefnu dyfynbris ar gyfer atgyweirio wal derfyn Llansadwrn cyn gynted â phosibl cyn symud ymlaen.

2728.3 Y Clerc i drefnu dyfynbrisiau/tendro ar gyfer contract torri gwair y ddau faes chwarae ac adrodd yn ôl i'r Cyngor ym mis Ionawr 2025.

2729 **Dosbarthwr Cŵn a Bagiau.**
Adroddodd y Clerc ar y materion canlynol:

2729.1 Cadarnhad bod 10 achos (TEN) ychwanegol o (8,000 o fagiau) am weddill y flwyddyn ariannol gyfredol wedi'u prynu fel y cytunwyd yn y cyfarfod diwethaf.

2729.2 Cadarnhad bod y polyn ychwanegol ar gyfer y peiriant dosbarthu ychwanegol a fydd yn cael ei leoli yn y gilfan gyferbyn â Fferm Rysgol wedi'i brynu fel y cytunwyd yn y cyfarfod diwethaf.

2730 **Materion Priffyrdd**
Trafodwyd y materion canlynol:

2730.1 **Lôn Allt Bryn Mel –** yn dilyn pryderon lleol a godwyd yn y cyfarfod diwethaf a'r ymweliad safle priodol, bydd Adran Priffyrdd y Cyngor Sir yn trefnu i dorri'r canghennau a'r cloddiau sydd wedi gordyfu ac sy'n rhwystro'r briffordd ac yn cyfarwyddo'r tirfeddianwyr i dorri'r gordyfiant o'u tir preifat eu hunain.

2730.2 **Lôn Pedair Groeslon -** yn dilyn pryderon lleol a'r gweledd gwael ar hyd rhannau o'r ffordd a godwyd yn y cyfarfod diwethaf ynglŷn â changhennau a gwrychoedd wedi gordyfu yn gwneud y ffordd yn hynod beryglus, cadarnhad wedi ei dderbyn gan Adran Priffyrdd yr Awdurdod Lleol yn dilyn archwiliad fod mwyafrif y materion gordyfiant yn fater preifat i gysylltu â'r tirfeddianwyr

perthnasol. Cwblhawyd y cylch 1af ar y ffyrdd Dosbarth 3 ac Annosbarthedig yn gynharach eleni ym mis Gorffennaf pan wnaethpwyd toriad 1m o led ar hyd y ffordd gyfan. Gwnaed toriadau ychwanegol hefyd ar y lleiniau gwelededdd cyffordd ac ar hyd troadau gwael lle maent yn digwydd. Felly, cadarnhawyd nad oes unrhyw faterion gwelededdd ar yr unig ffordd gyfagos sef y gyffordd o Lôn Plas ar hyn o bryd hyd y gallent weld. Fodd bynnag, mae'r 3ydd cylch hefyd yn cael ei dorri ar hyn o bryd lle bydd RPG, ein contractwyr, yn torri 2 swath bron ym mhobman ar hyd y ffordd ac yn amlwg bydd y toriadau ychwanegol ar ymlediadau gwelededdd cyffyrdd a'r troadau gwael hefyd yn digwydd fel arfer. Gobeithir cwblhau'r gwaith hwn o fewn y 3-4 wythnos nesaf yn dibynnu ar y tywydd gwlyb a brofir rhwng nawr ac yna. Byddai'r Swyddog Priffyrdd perthnasol yn cynnal archwiliad pellach pan fydd y gwaith wedi'i gwblhau a bydd y camau angenrheidiol yn cael eu cymryd yn erbyn unrhyw dirfeddianwyr sydd angen torri eu gwrychoedd sydd wedi gordyfu bryd hynny. Nodwyd na dderbyniwyd ymateb yn dilyn pryderon a godwyd ynghylch difrod a wnaed i wal hen Bont Cadnant.

2730.3 **Ymgynghoriad ar y Terfynau Cyflymder 20mya –** bydd y Clerc wedi dosbarthu a rhannu'r wybodaeth berthnasol gyda'r Cynghorwyr yn y cyfarfod nesaf.
PENDERFYNIAD: ymateb a gofyn bod yr arwydd terfyn cyflymder 20mya ar waelod Allt Cichle yn cael ei ail leoli yn nes at y pentref cyn cyrraedd Stad Bron Haul.

2730.4 **Gorchymyn Cau Ffordd Dros Dro CSYM (Lôn Plas) –** bydd y ffordd ar gau rhwng 30 Hydref a 1 Tachwedd 2024 i alluogi gwaith Dŵr Cymru – adnewyddu pibell gwasanaeth dŵr i un o'r eiddo

2731 **Materion Llwybrau Troed.**

2731.1 Adolygiad Llwybrau 2024 - cadarnhad a thrafodaeth yn dilyn cwblhau a rhannu'r ddogfen adolygu Llwybrau gyda diolch i'r holl Gynghorwyr a gerddodd y llwybrau.
PENDERFYNIAD: Cyng Mr John Griffiths a'r Clerc i drefnu cyfarfod i drafod y ddogfen a chynllunio pa gamau i'w cymryd (AR/NF).

……..

2731.2 **Adran 257 (Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990) - Cais i ddileu rhan o Lwybr Cyhoeddus Rhif 13 – Gwel y Llan – i ganiatáu adeiladu 30 o dai preswyl newydd dan gais cynllunio cyfeirnod FPL/2024/105.**
PENDERFYNIAD: dan y ddeddfwriaeth, teimlai'r Cynghorwyr, pe byddai'r cais cynllunio yn cael ei ganiatáu, y byddai unrhyw sylwadau a gyflwynwyd yn ddiystyr.

2732 **Cynllun Rheoli Gwarchodfa Natur Leol Cyttir.**
Yn dilyn mân newidiadau i'r cynllun, cymeradwyodd y Cynghorwyr y ddogfen ddiwygiedig yn ffurfiol gyda diolch i Mr Simon Hunt.

2733 **Cynllun Bioamrywiaeth Cyngor Cymuned.**
Roedd y Clerc wedi rhannu copi o'r ddogfen ddiwygiedig i'r Cynghorwyr er mwyn i'r Cynllun gael ei fabwysiadu yng nghyfarfod mis Tachwedd.

2734 **Adroddiad Blynyddol y Cyngor 2023/2024.**
Yn unol â Chofnod 2705, y Clerc i gwblhau'r ddogfen cyn gynted â phosibl.

2735 **Lwfansau Aelodau.**
Yn unol â Chofnod 2704, bydd y Clerc yn darparu'r ffurflen optio allan berthnasol i Gynghorwyr cyn y cyfarfod nesaf a rhaid i Gynghorwyr hefyd roi gwybod iddo am eu hopsiwn gorfodol i dderbyn eu lwfans o £156.00 yn unol â chymeradwyaeth yr IPRM.

2736 **Cynllun/Cyrsiau Hyfforddi'r Cyngor.**
Atgoffodd y Clerc unwaith eto ac anog y Cynghorwyr i fynychu Cyrsiau yn unol â Chynllun Hyfforddi'r Cyngor a thalu sylw arbennig i'r cyrsiau Côd Ymddygiad ar-lein.

2737 **Materion Neuadd y Plwyf.**
Cadarnhaodd y Clerc y bydd yr eitem hon yn cael trafodaeth lawn yng nghyfarfod mis Tachwedd.

2738 **Plac Coffa Teulu Oliver.**
Cadarnhad bod yr holl drefniadau mewn llaw ar gyfer dadorchuddio'r plac gyda'r teulu am 2:00yp dydd Iau, 17eg Hydref 2024.

2739 **Sul y Cofio.**
Cadarnhaodd y Cyng Mrs Nia Foulkes eto fod yr holl drefniadau ar gyfer y Gwasanaeth blynyddol yn Neuadd y Plwyf ar Ddydd Sul, 10fed Tachwedd 2024 am 3:00yp mewn llaw.

2740 **Coeden Nadolig a Goleuo'r Goeden.**
Cadarnhad gan y Clerc bod trefniadau amgen ar gyfer y Goeden a'r holl weithgareddau eraill mewn llaw.
PENDERFYNIAD: cynnal noson goleuo'r Goeden yn ffurfiol y tu allan i Neuadd y Plwyf ar nos Wener, 29 Tachwedd 2024 am 6:30pm.

2741 **Biliau i'w Talu.**

2741.1 **Cymeradwywyd y bil talu a ganlyn (AR/JG):**

i. Cyflog y Clerc – Medi 2024 **£600.00**

2741.2 **Derbyniadau:**
i. Llog Banc **£43.55**

2741.3 **Cysoni Cyfrif: 30.9.2024**
Cyfrif Cyffredol - £18,571.06 Cyfrif Wrth Gefn - £35,409.62

2742 **Ceisiadau Cynllunio Newydd.**

2742.1 Addasu ac Estynu i gynnwys codi Porth Ceir yn:
Tyddyn Isaf, Llandegfan – HHP/2024/142 – DIM SYLWADAU.

2742.2 Cais Cynllunio Diwygiedig i Ddymchwel ac Amnewid Garej Bresennol, Dymchwel rhan o'r Annedd Presennol, Addasu ac Ymestyn a lledu'r Fynedfa Bresennol yn: **Glanffrwd, Lôn Fferam Uchaf, Llansadwrn – HHP/2024/120 – DIM SYLWADAU.**

2743 **PENDERFYNIADAU Ceisiadau Cynllunio.**

2743.1 **Ynys y Big, Glyngarth, Heol Biwmares – FPL/2022/289 –** Cais llawn i ddymchwel tŷ presennol er mwyn caniatáu adeiladu annedd newydd a garej **– CYMERADWYO.**

…….

2743.2 **Gwarchodfa Natur Leol Cyttir** (Panel Gwybodaeth ac Arwyddion Ychwanegol), **Hen Landegfan – ADV/2024/4 – CYMERADWYWO.**

2744 **Materion Eraill yn Ymwneud â Chynllunio.**
Cais Cynllunio – Tir i'r Gogledd Ddwyrain o Gwel y Llan – FPL/2024/105 – Hysbyswyd y Cynghorwyr fod ymweliad safle i'w gynnal a bod disgwyl penderfyniad yn y Pwyllgor Cynllunio Llawn nesaf ddechrau Tachwedd 2024. **Cytunodd y Cynghorwyr i ganiatáu'r Clerc i gynrychioli'r Cyngor a'r trigolion ac i siarad yn gyhoeddus i wrthwynebu'r cais**

2745 **Diffibriliwr Ysgol Gynradd.**
PENDERFYNIAD: Cytunodd y Cynghorwyr i'r cais gan yr Ysgol a chymryd cyfrifoldeb am ddiffibriliwr yr Ysgol ac YCHWANEGU hwn at Asedau'r Cyngor Cymuned (NF/AR). Cytunwyd hefyd i drefnu cwrs ymwybyddiaeth diffibriliwr yn gynnar yn 2025.

2746 **Gohebiaeth**
Dosbarthwyd a rhannwyd yr ohebiaeth ganlynol gyda'r Cynghorwyr:

2746.1 Adolygiad o Siarter Cymunedol ar y Cyd y Cyngor Sir gyda Chynghorau Tref a Chymuned yr Ynys **– cyflwyno unrhyw sylwadau i'r newidiadau arfaethedig erbyn dydd Gwener, 29 Tachwedd 2024.**

2746.2 **Cofnodion Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned – 19.9.2024.**

2746.3 **Cofnodion Cyfarfod Cangen Ynys Môn Un Llais Cymru – 11.7.2024**

2746.4 **Cyflwyniad Powerpoint Tân ac Achub Gogledd Cymru**

2747 **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 13 Tachwedd 2024.**
Diolchodd y Cadeirydd i'r Cynghorwyr am eu presenoldeb a daeth y cyfarfod i ben am 9:40pm.

Arwyddo…… Cadeirydd…… Dyddiad.

CWM CADNANT COMMUNITY COUNCIL.
Minutes of the Council's Meeting held in the Parish Hall, Llandegfan on Wednesday, 9th OCTOBER 2024.

MINUTE:

2722 **Present were:**

Councillors Mr Tom Cooke (Chair), Mrs Nia Foulkes, Miss Sian Griffiths, Mr Eurfryn Davies, Mr John Griffiths, Mr William Roberts, Mr Michael Willis, Mr Alun Roberts & Mr J Alun Foulkes (Clerk).

ALSO IN ATTENDANCE: County Councillor Mr Carwyn Jones.

2723 **To receive any Apologies:**

An apology was received from Councillors:
Mr John Wyn Griffith & Mr Gareth Griffiths.
Also: County Councillor Mr Gary Pritchard.

2724 **Welcome from the Chairman.**

All Councillors present were welcomed to the meeting by the Chairman. Councillors were then informed of several bereavements in the village since the last meeting for those residents who had played an active part in the community and condolences were also extended to Cllr Mr John Griffith following the death of his brother.

2725 **To Declare any Personal/ Prejudicial Interest**

No declaration of personal and/or prejudicial interest was declared prior to the meeting.

2726 **To Accept & Approve Minutes of Previous Meetings.**

Full Council Meeting – 11.9.2024 - proposed (MW) and seconded (ED) to accept, approve and sign that the minutes of the meeting were correct.

.....

2727 **Social Media Policy.**

The Clerk reminded Councillors of the Community Council's Social Media Policy and to be mindful of any posts they will published on local facebook pages that may be misinterpreted and open to any complaints received.

2728 **Play Area Inspection Report & Grass Cutting Tender.**

The following matters were discussed and agreed upon:

2728.1 Completion of the 2024 Play Area Inspection – a copy of the report had been provided to Councillors – agreed that a quotation be obtained for the Multi-Use Play Equipment in Llansadwrn that is in poor condition and to include the expenditure in the precept for 2025/2026.

2728.2 The Clerk to arrange a quote for repairs to the boundary wall in Llansadwrn as soon as possible before proceeding.

2728.3 The Clerk to arrange quotes/tendering for the grass cutting contract of both play areas and report back to Council in January 2025.

2729 **Dog Dispenser & Bags.**

The Clerk reported on the following matters:

2729.1 Confirmation that an extra 10 (TEN) cases of (8,000 bags) for the remainder of the current financial year had been purchased as agreed at the last meeting.

2729.2 Confirmation that the extra pole for the additional dispenser that will be located in the lay-by opposite Rysgol Farm had been purchased as agreed at the last meeting.

2730 **Highway Matters**

The following matters were discussed:

.....

2730.1 **Lôn Allt Bryn Mel** – following local concerns raised at the last meeting and the respective site inspection, the County Council's Highways Department will arrange for the overgrown branches and hedges obstructing the highway to be cut and to instruct the landowners to cut the overgrowth from their own private land.

2730.2 **Lôn Pedair Groeslon** - following local concerns and the poor visibility along parts of this road raised at the last meeting regarding overgrown branches and hedges making the road extremely dangerous, confirmation received from the Local Authority's Highways Department that following a driven inspection along the road, the majority of the overgrowth issues are a private matter for contact to be made with the relevant landowners. The 1st cycle on the Class 3 & Unclassified roads were completed earlier this year in July where a 1m wide swath cut was carried out along the whole length. Additional cuts were also carried out on the junction visibility splays and along bad bends where they occur. Therefore, confirmation was given that there aren't any visibility issues on the only adjoining road the junction from Lon Plas currently as far as they could see. However, the 3rd cycle is also currently in process of being cut where our contractor RPG will cut 2 swaths almost everywhere along this road, and obviously the additional cuts on junction visibility splays and the bad bends will also take place as usual. This work will hopefully be completed within the next 3-4 weeks depending on the wet weather experienced between now and then. A further inspection would be taken by the relevant Highways Officer when this works is completed in about a month's time and the necessary action will be taken against any landowners which requires to cut their overgrown hedges at that time. **It was noted that no response was received following concerns raised to damage done to the wall of the old Cadnant Bridge.**

.....

2730.3 **Consultation on the 20mph Speed Limits -** the Clerk had circulated and shared the relevant information with the Councillors prior to the next meeting.
DECISION: to respond and request that the 20mph speed limit sign on the bottom of Allt Cichle is relocated closer to the village before reaching the Bron Haul Estate.

2730.4 **CSYM Temporary Road Closure Order (Lon Plas)** – road will be closed between 30th October & 1st November 2024 to enable Welsh Water works – renewal of water service pipe to one of the properties

2731 Footpath Matters.

2731.1 **Footpath Review 2024 -** confirmation and discussion following the completion and sharing the Footpath Inspection review document with thanks to all the Cllrs who walked the paths.
DECISION: Cllr Mr John Griffiths & the Clerk to arrange a meeting to discuss the document and plan what action to take (AR/NF).

2731.2 **Section 257 (Town & Country Planning Act 1990) Application to extinguish part of Public Footpath No 13 – Gwel y Llan** – to allow the building of 30 new residential dwellings under planning application reference FPL/2024/105.
DECISION: under the legislation, Cllrs felt that, should the planning application be approved, any observations submitted would be meaningless.

2732 Cyttir LNR Management Plan.

Following minor amendments to the plan, Cllrs formally approved the revised document with thanks to Mr Simon Hunt.

2733 Community Council's Biodiversity Plan.

The Clerk had provided Councillors with the revised document in order for the Plan to be adopted at the November meeting.

2734 **Council's Annual Report 2023/2024.**
As per Minute 2705, the Clerk to complete the document as soon as possible.

2735 **Member Allowances.**
As per Minute 2704, the Clerk will provide Councillors with the relevant opt-out form prior to the next meeting and Cllrs must also inform him of their mandatory option to receive their allowance of £156.00 in line with the IPRM approval.

2736 **Council's Training Plan/Courses.**
The Clerk again reminded and urged Councillors to attend Courses in accordance with the Council's Training Plan and pay particular attention to the online Code of Conduct courses.

2737 **Parish Hall Matters.**
The Clerk confirmed that this item will receive a full discussion at the November meeting.

2738 **Oliver Family Memorial Plaque.**
Confirmation that all arrangements were in hand for the unveiling of the plaque with the family at 2:00pm on Thursday, 17th October 2024.

2739 **Remembrance Sunday.**
Cllr Mrs Nia Foulkes again confirmed that all the arrangements for the annual Service in the Parish Hall on Sunday, 10th November 2024 at 3:00pm were in hand.

2740 **Xmas Tree & Lights.**
Confirmation from the Clerk that alternative arrangements for the Tree and all other activities was in hand.
DECISION: to formally light the Tree outside the Parish Hall on Friday evening, 29th November 2024 at 6:30pm.

.....

2741 Bills for Payment.

2741.1 The following bill for payment were approved (AR/JG):

i. Clerk's Wages – September 2024 ***£600.00***

2741.2 *Receipt(s):*

i. Bank Interest ***£43.55***

2741.3 *Account Reconciliation: 30.9.2024*

Current Account - £18,571.06 Reserve Account - £35,409.62

2742 New Planning Applications.

2742.1 *Alterations & Extensions to include the erection of a Car Port at:* ***Tyddyn Isaf, Llandegfan – HHP/2024/142 – NO OBSERVATIONS.***

2742.2 *Amended Planning Application to Demolish & Replace Existing Garage, Demolish part of the Existing Dwelling, Alter & Extend and widen Existing Access at:* ***Glanffrwd, Lon Fferam Uchaf, Llansadwrn – HHP/2024/120 – NO OBSERVATIONS.***

2743 Planning Application DECISIONS.

2743.1 ***Ynys y Big, Glyngarth, Beaumaris Road – FPL/2022/289 –*** *Full application to demolish existing dwelling to allow new dwelling and garage to be built –* ***APPROVED.***

2743.2 ***Cyttir Local Nature Reserve (Information Panel & Additional Signage), Old Llandegfan – ADV/2024/4 – APPROVED.****ion.*

.....

2744 Other Planning Related Matters.

Planning Application - Land to the North East of Gwel y Llan – FPL/2024/105 – Councillors were informed that a site inspection was due to be carried out and that a decision was expected at the next Full Planning Committee at the beginning of November 2024. Councillors agreed to allow the Clerk to represent the Council and the residents and to publicly speak to oppose the application

2745 Primary School Defibrillator.

DECISION: Councillors agreed to the request from the School and take responsibility of the School's defibrillator and ADD this to the Community Council's Assets (NF/AR). It was also agreed to arrange a defibrillator awareness course in early 2025.

2746 Correspondence

The following correspondence was circulated and shared with the Councillors:

2746.1 **Review of the County Council's Shared Community Charter with the Island's Town & Community Councils** – to submit any comments to the proposed changes by Friday, 29th November 2024.

2746.2 Minutes of the Town & Community Council Forum – 19.9.2024.

2746.3 Minutes of the One Voice Wales Anglesey Branch Meeting minutes – 11.7.2024

2746.3 North Wales Fire & Rescue Powerpoint Presentation

2747 Date of Next Meeting: 13th November 2024.

The Chairman thanked the Councillors for their attendance and closed the meeting at 9:40pm.

Sign…….. Chairman…… Date.